CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD CYNGOR 7 EBRILL 2015

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
B Owen, I C Thomas, W L Davies, H W Roberts, M Thomas, G Thomas, E Lovgreen, E Hughes, T Thomas, K Williams, G Thomas, M Sarnacki

1. **Ymddiheuriadau**

A Hopcyn, A Bohana, C Williams, W T Owen

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Safodd pawb am funud fel arwydd o barch i nodi marwolaeth Cyn Faer y Dref Meurig Williams

Ffilmio gyda Cwmni Da Par: Llew Llwyfo

Galeri 'Gwaith ar Waith' Cynllun Canolfan Mileniwm Caerdydd

Agor 'Board Room' newydd – Clwb Peldroed Caernarfon
Yng nghwmni Syr David Brailsford

Noson gwobrwyo Dartiau Merched Caernarfon

3. **Datgan Buddiant Personol**

Cyng E Hughes – Eitem 12

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Llythyr Cyng T Thomas
A Cais cynllunio Bryn Seiont

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 17 Mawrth 2015
ii. Panel Cyllid a Staff 17 Mawrth 2015
(er gwybodaeth – wedi cael ei basio yng Nghyngor 17.3.2015)

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C15/0248/14/CR **Cytuno**

Addasiadau mewnol

17 Bangor Street. Caernarfon

****

2. C15/0265/14/LL **Cytuno**

Estyniad dormer yng nghefn yr eiddo

Parciau Bach, Bangor Road, Caernarfon

****

3. C15/0213/14/LL **Cytuno**

Newid defnydd uned ddiwydiannol
Dosbarth B1/B2 i ddefnydd Dosbarth D1 ar gyfer
ganolfan ffitrwydd

Uned 6 Lon Cae Ffynnon, Ystad Ddiwydiannol
Cibyn, Caernarfon

****

Cais cynllunio a dderbyniwyd 7.4.2015/Planning application received 7 April 2015
(copi ar yr hysbysfwrdd/ copy on the Board)

4. C15/0314/14/DA **Cytuno**

Cais am ddiwygiad ansylweddol ar gyfer ail-ddylunio cynllun y maes parcio a ganiatawyd o dan gyfeirnod C11/0828/14/LL

Bryn Seiont Hospital, Pant Road, Caernarfon

****

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir

9. Llythyrau Cenedlaethol Cymru

Archif gwefannau Cymru

Penderfynwyd

Cytuno fod yn rhan o'r cynllun

10. Llythyr Peter Lord

Defnydd o Deffroad Cymru

Penderfynwyd

Caniatáu gyda'r amodau arferol

11. Unllais Cymru

i) Adroddiad o'r Pwyllgor Ardal (ar lafar)
Cafwyd adroddiad bod Arwel Jones o Cyngor Gwynedd wedi rhoi sgwrs difyr am y bosibiliadau o drosglwyddo asedau i Cynghorau cymuned. Fydd na ddim rhuthro a dim byd yn symud eleni. Fydd Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfarfodydd cyn yr haf (dyddiadau heb eu drefnu eto). Mi fydd Unllais Cymru yn creu toolkit i helpu efo'r math yma o bethau.
Nodwyd bod Unllais efo wefan newydd a bod posib cael y cyfrinair gan y Clerc
Trafodaeth am y papur gwyn a phwysigrwydd i bob Cyngor ymateb
Cynrychiolydd ar Betsi Cadwaladr wedi sefyll lawr chwilio am rhywun newydd

ii) Pâr: Cynigion Cyfarfod blynyddol

iii) Parthed Papur Gwyn – sesiynau trafod

Penderfynwyd

i. Unwaith fydd dyddiadau ar gael ar gyfer cyfarfodydd trafod pwy fydd yn mynychu gan sicrhau bod nhw yn deall barn y Cyngor cyn mynd

ii. Unrhyw rybudd i'r clerc cyn hanner dydd ddydd Mawrth nesaf ar gyfer eu cynnwys yn yr agenda

iii. Cyng C Williams a Cyng H Roberts i fynychu ar ran y Cyngor

12. Cyngor Gwynedd

i) Maes Parcio Safle Shell

ii) E-bost parthed y gorchymyn Parcio

(Adroddiad y Cabinet ar y bwrdd)

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a disgwyl am drafodaethau pellach pan fydd mwy o fanylion ar gael

13. E-bost Cyngor Gwynedd

Parthed VE Day 8fed o Fai

Penderfynwyd

Clerc i drafod efo'r Comrades gyda hawl i weithredu

14.**Mynwent Llanbeblig**

Adborth o'r cyfarfod
Nododd y clerc bod cyfarfod positif iawn wedi cymryd lle , a bod contractiwr wedi ei benodi i gychwyn ar y gwaith sylweddol. Yr Eglwys yn chwilio am arian sylweddol i wireddu'r cynllun yma .

Penderfynwyd
Trafod ei cais ariannol yn y Cyngor nesaf

15. **Trefi Caerog**

Adroddiad ar lafar
Siomedig bod dim un o gynrychiolwyr y Cyngor yn bresennol a diffyg nifer o ymddiheuriadau . Nodwyd bod criw o Gaer am helpu gyda trefniadau'r Rali Ceir

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

Eitem Brys
Llythyr Cyng Tecwyn Thomas
Parthed amseroedd hel post o blychau post
Penderfynwyd
Anfon llythyr i geisio darganfod y ffeithiau cyn trafod

Eitemau Eithriedig

16. Tendr Glanhau cysodfannau bysus
Tendr wedi dod i ben . Heb gael eu glanhau ers tro 2 cwyn mewn 2 flynedd am y ru'n cysgodfan . Diolchgar i'r Cynghorydd lleol am eu glanhau. Ar ôl trafod opsiynau
Penderfynwyd
Cynghorwyr i gadw golwg ar y cysgod fannau ar eu wardiau ac adrodd yn nol i'r clerc os oes angen unrhyw waith er mwyn i'r gofalwr fynd allan i ofalu .

17. Tendr glanhau toiledau Llanbeblig
Tendr wedi dod i ben
Penderfynwyd
Gofyn wrth y gofalwr wneud y gwaith dros dro (a talu 2 awr bob diwrnod y mae yn agor nhw) er mwyn sicrhau bod nhw yn agored ac yna cael trafodaeth mewn Panel Cyllid

18. Llythyr Prifysgol Bangor

Parthed les y stiwdio gelf
Prifysgol yn tynnu nol
Penderfynwyd
Cytuno a danfon llythyr i nodi y byddem yn codi mesul ymweliad ar y prisiau graddfa uwch , ac ysgrifennu i coleg Menai i weld os oes na unrhyw gwrs Celf fyddai a diddordeb mewn defnydd o'r ystafell hefyd

19. Cwestiynau

Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 7.20

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....